# Cylch Trawsbleidiol y Gogledd a Glannau Merswy Dyfrdwy yn y Cynulliad Cenedlaethol

## 1. Diben

Bydd Cylch Trawsbleidiol y Gogledd a Glannau Merswy Dyfrdwy yn y Cynulliad Cenedlaethol yn hyrwyddo lles cymdeithasol ac economaidd y gogledd trwy:

- hyrwyddo a hwyluso datblygiad economïau chwe sir y gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam);
- hyrwyddo a hwyluso datblygiad economaidd bro Cynghrair Merswy Dyfrdwy sy'n cynnwys economi drawsffiniol wedi'i seilio ar ardaloedd awdurdodau lleol Sir y Fflint; Wrecsam, Gorllewin Swydd Gaer, Caer a Chilgwri er lles economaidd y gogledd i gyd.
- cydnabod partneriaethau trawsffiniol allai fod o fudd economaidd i'r gogledd, megis trefniadau ymhlith awdurdodau lleol y gogledd a'r canolbarth, a chydweithio â nhw;
- ymgysylltu â chyrff cydweithredol traws-sectorol sy'n ymwneud â hyrwyddo a gwella gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth megis Bwrdd Arwain Rhanbarth y Gogledd.

## 2. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y cylch yn agored i bob aelod o'r Cynulliad sy'n cynrychioli etholaeth yn y gogledd neu'r rhanbarth i gyd, gan gynnwys etholaeth Dwyfor Meirionnydd.

## 3. Partneriaid economaidd

I hybu datblygiad economi'r gogledd, bydd y cylch yn cydweithio â'r canlynol:

- awdurdodau lleol y gogledd;
- Bwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd;
- Cynghrair Merswy Dyfrdwy;
- Cyngor Busnes y Gogledd a Glannau Merswy Dyfrdwy;
- Growth Track 360 (Tasglu Rheilffyrdd y Gogledd a Glannau Merswy Dyfrdwy);
- Cylch Trawsbleidiol y Gogledd a Glannau Merswy Dyfrdwy yn Senedd San Steffan.

## 4. Swyddogion

Bydd aelodau'r cylch yn ethol cadeirydd, is-gadeirydd ac ysgrifennydd bob blwyddyn yn ystod ei gyfarfod cyffredinol blynyddol. Rhaid i swyddogion y cylch fod yn aelodau o'r Cynulliad.

Bydd tair swydd y cylch yn cael eu rhannu ymhlith pleidiau'r rhanbarth. Pan fo aelodau mwy na thair plaid yn y Cynulliad, tair plaid fwyaf y gogledd (gan gynnwys Dwyfor Meirionnydd) fydd yn rhannu tair swydd y cylch.

## 5. Cadeirydd

Dyma ddyletswyddau'r cadeirydd:

- llywio cyfarfodydd y cylch;
- ysgwyddo cyfrifoldeb am weinyddu'r cylch:

    - lledaenu agenda pob cyfarfod;
    - gwahodd partneriaid a phobl berthnasol eraill i gyfarfodydd y cylch;
- gofalu bod pawb yn cydymffurfio â rheolau'r Cynulliad am gylchoedd trawsbleidiol:
    - paratoi a chyflwyno adroddiad a chyfrifon y cylch bob blwyddyn;
    - cadw cofrestr o fuddiannau;
- pennu gwaith y cylch ar y cyd â'i swyddogion;
- cynrychioli'r cylch yn ystod cyfarfodydd â phartneriaid, a siarad ar ei ran i hyrwyddo amcanion mae'r aelodau wedi cytuno arnynt.

## 6. Gwaith ysgrifenyddol

Staff swyddfa'r cadeirydd yn y Cynulliad a chydlynydd rhanbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y gogledd fydd yn gyfrifol am y gwaith papur.

## 7. Pleidleisio

Bydd y cylch yn ceisio gweithio yn ôl cydsyniad lle bo modd, gan gynrychioli a hyrwyddo buddiannau sy'n gyffredin i bawb yn y rhanbarth.

Pan fo angen pleidleisio, bydd y cadeirydd yn cyflwyno cynnig i'r cyfarfod ac yn gwahodd yr aelodau o'r Cynulliad sy'n bresennol i bleidleisio arno.

Dim ond aelodau o'r Cynulliad fydd yn cael cyflwyno cynnig a phleidleisio arno.

Mwyafrif syml fydd yn ddigonol ar gyfer cymeradwyo cynnig. Pan fo nifer y pleidleisiau'n gyfartal, bydd y cadeirydd yn cael bwrw pleidlais ychwanegol.

## 8. Cworwm

Dylai o leiaf bum aelod o'r Cynulliad fod yn bresennol, gan gynnwys y cadeirydd.

## 9. Ffordd o weithio

Dyma nodau'r cylch yn hyn o beth:

- ceisio meithrin cydsyniad ymhlith yr aelodau a phennu amcanion ar y cyd;
- cynnal seminarau yn y Cynulliad ac yn y gogledd bob hyn a hyn i hybu buddiannau economaidd y rhanbarth a'r economi drawsffiniol;
- cydweithio â Chylch Trawsbleidiol y Gogledd a Glannau Merswy Dyfrdwy yn Senedd San Steffan;
- gadael i aelodau o'r Cynulliad gael eu cynrychioli gan eu staff yn eu habsenoldeb, er na fydd gweithwyr o'r fath yn cael pleidleisio drostyn nhw;
- cynnig cyfleusterau cyfieithu ar y cyd yn y rhan fwyaf o'i gyfarfodydd yn y Cynulliad (ar yr amod bod gwasanaeth ar gael yno) ac mewn achlysuron pwysig lle y gall cyrff sy'n eu cynnal gynnig cyfleusterau cyfieithu heb godi tâl ar y cylch.